# Gosod y cyd-destun



# Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgol yng Nghymru





# ECAD6007C

## Y Dysgwr: pwy ydw i’n ei addysgu?

## Methodoleg Astudiaethau Achos ac Achosion Critigol

SIÂN BROOKS ISHMAEL LEWIS
ac IWAN ELLIS- WILLIAMS



# NODAU'R MODWL

Rhoi i athrawon dan hyfforddiant sgiliau dadansoddi beirniadol a gwerthuso, i ddeall y gwahanol bersbectifau sydd wrth wraidd theorïau datblygiad plant a mynd i'r afael â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar lesiant a datblygiad.

Ennyn diddordeb yn y model arfer trawsnewidiol sy'n cychwyn mewn lleoliad addysgol, ar sail tystiolaeth oddi wrth adfyfyrio'n feirniadol a gwerthuso.

.

# DEILLIANNAU DYSGU'R MODWL

## Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

ddangos dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n effeithio ar les, dysgu a datblygiad plant o 0-19 oed a chymhwyso hyn i arfer personol.

cyflwyno safbwynt personol ar rôl yr athro proffesiynol mewn perthynas â bodloni anghenion ystod amrywiol o blant a phobl ifanc; yn cynnwys herio tybiaethau, credoau sy'n arwain at ragfarn a stereoteipio.

adfyfyrio a gwerthuso'n feirniadol ystod o agweddau gwahanol ar gyfer bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr mewn ystod o leoliadau, a chyfiawnhau dewisiadau a wneir mewn arfer personol.

# ECAD6007C Aseiniad

- Sut y bydd y sesiwn hon yn cyfrannu i'r aseiniad?

**Amcanion y sesiwn:**

- Deall nodweddion astudiaeth achos ac achos beirniadol.
- Paratoi ar gyfer Arsylwadau ac Aseiniad Pontio.



**Gwerthuso a nodi'n feirniadol y camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos beirniadol a arsylwyd (cyfwerth â 5000 o eiriau).**

**Cyflwyniad: 29/10/19 (dyddiad terfynol 23:59)**

# ACRIFADU GWYBODAETH FLAENOROL

# APK

Beth mae **beirniadol** yn ei olygu yng nghyd-destun aseiniad?

Beth allai effeithio ar allu disgyblion i ddysgu mewn gwers?

Beth yw'r prif Theorïau Dysgu?













# Ble i ddechrau?



# Pam Ymchwil?

- "Research is not only a set of skills, but also a way of thinking. Within this framework of thinking, you usually question what you observe, make an attempt to further explore, understand and explain your observations, and draw conclusions and inferences to enhance your practice skills and their knowledge base."
- KUMAR (2014: 2)

**Cwestiynu beth rydych yn ei weld**
↓
**Archwilio ymhellach**
↓
**Deall ac esbonio**
↓
**Tynnu casgliadau**
↓
**Gwella arfer**

# Astudiaeth ymchwil…

(Kumar, 2014)

… fe'i cynhelir oddi mewn i fframwaith athronyddol;

…defnyddia weithdrefnau, dulliau a thechnegau y rhoddir prawf ar eu dibynadwyedd a'u dilysrwydd;

…fe'i llunnir i fod yn ddiduedd a gwrthrychol.

# Methodoleg ymchwil

- "Too often methods of data collection are confused with methodology, and methodology is confused with design"
- COHEN ET AL. (2018: 285)

Beth yw'r gwahaniaeth yn ystyr y 3 therm uchod?

# Astudiaeth achos

Gallai achos fod yn episod, digwyddiad, unigolyn, grŵp, cymuned, tref
….ond a ystyrir yn un endid.

**" A single instance of a bounded system."**
**(Creswell, 1994:12)**

Daw'r achos yn sail i "thorough, holistic and in-depth exploration of the aspect(s) that you want to find out about" (Kumar, 2014: 155).



# Manteision ac Anfanteision Astudiaeth Achos

- ✓Yn darparu ymchwiliad manwl
- ✓Yn caniatáu rhagor o fanylder.
- ✓Yn gallu dangos pobl go iawn mewn sefyllfaoedd go iawn
- ✓Yn dangos syniadau haniaethol mewn ffyrdd ymarferol.
- ✓Yn "illustrative and illuminating" (Wellington, 2015:174)
- ✓Pwyslais ar realiti.
- ✓Hawdd i'w deall

- ✗Anodd diffinio beth yw 'achos'.
- ✗Anodd cyffredinoli'r canfyddiadau
- ✗Anodd croeswirio.
- ✗Gall fod yn rhagfarnllyd.

**Allwch chi ddiffinio rhagfarn arsylwydd?**

# Achos Beirniadol

**Beirniadol = yn cynnwys dadansoddi'n wrthrychol fater er mwyn ffurfio barn.**

"Incidents tend to be 'typical' rather than 'critical' at first sight, but are rendered critical through analysis" (Tripp, 2012:25)

"It is the **unremarkable and everyday events** that make up our routine professional lives that are often the best indicators of the patterns and values that underpin our practice" (Tripp, 2012:40)



# Nodweddion Achos Beirniadol

- At ei gilydd yn syml heb fod yn ddramatig.
- Gellid ei ystyried yn ddibwys
- Yn digwydd mewn arfer proffesiynol arferol
- Mae ganddo ystyr fwy cyffredinol.
- Gellir ei ystyried mewn cyd-destun ehangach.
- Ein dadansoddiad ni sy'n gwneud achos yn feirniadol.
- Gallai fod yn nodweddiadol neu'n annodweddiadol.

"In analysing events to create critical incidents, we are usually trying to confirm (verify) something we already suspected (hypothesized), but analysis can also reveal something entirely new".

Tripp (2012: 43)

Achos

Achos Beirniadol

Disgrifiwch yr achos. Awgrymwch esboniad a'r ystyr yn y cyd-destun uniongyrchol.

Darganfyddwch ystyr a dosbarthiad/ arwyddocâd mwy cyffredinol i'r achos.

Cododd Mari ei llaw i naddu ei phensil

Dyna'r ffordd y mae hi i fod i ofyn i'r athro a gaiff hi wneud hynny.

Mae'n golygu bod Mari yn cydymffurfio â rheol y dosbarth.

Mae hon yn enghraifft o derfynau annibyniaeth myfyrwyr.

Safbwynt: rwy'n credu y dylai myfyrwyr fod yn fwy annibynnol

Addaswyd o Tripp, 2012

# Am beth rydw i'n chwilio yn yr arsylwi hwn?

WEDI EI ADDASU O

Fletcher-Wood (2016: 125)

- **Diwylliant yr ystafell ddosbarth**: Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?
- **Amcanion:** A oes amcan clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwn?
- **Cyfarwyddyd**: Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?



**PONTIO ECAD6007-C**

Arsylwadau

- **Deall a her**: All pob myfyriwr gymryd rhan yn y wers? Ydy pob myfyriwr yn cael her?
- **Asesiad:** Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y caiff hyn ei ddefnyddio yn eu haddysgu?
- **Manylion**: Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol penodol y byddai'n fuddiol eu trafod?

# Nodiadau Arsylwi / Maes

- Arfer tôn niwtral a bod yn 'betrus' a pharchus eich iaith.
- Ar gyfer pob gwers, gall fod nifer o achosion beirniadol i'w nodi. Dewiswch un o'r rhain yn ffocws ar gyfer eich BWA.
- Cyflwynwch 8 -10 Ffurflen arsylwi

**4 Taflen**



# Arsylwi ar lawr dosbarth



https://www.youtube.com/watch?v=GTbcMj7O2DI

# TRAFODAETHAU GRŴP

- Allwch chi nodi unrhyw **"ddigwyddiadau anhrawiadol a phob dydd"** neu **"adegau ac enghreifftiau trawiadol penodol"** yn y clip?

- Sut y gellid datblygu'r achosion hyn yn ddadansoddiad manylach?



# Arfer Adfyfyriol

- “Reflection is important in enabling teachers to critically question their assumptions and deepen their awareness. By being proactive in seeking opportunities to develop, a teacher will remain open to the idea that all teaching is an opportunity to learn”.

https://impact.chartered.college/article/what-is-reflective-practice/

# Model Beirniadu Wedi Adfyfyrio (BWA)

**Teimladau**
"Beth yw eich teimladau am yr achos?"

**Cofio a Deall**
"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"




**Gwerthuso a dadansoddi**
"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"

**Casgliadau a chamau gweithredu**
"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"

"Beth y gellid ei wneud nesaf?"

# 4 Taflenni Adfyfyrio ar Achosion Beirniadol

Defnyddiwch gwestiynau annog


Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ARC Question Structures

The question starters listed below have been created as examples. The list is not intended to be exhaustive, only initial prompts for the user to gain the vocabulary required for effective reflection.



*Feelings*

What are your feelings (initial/reflective) regarding the experience?

*Remembering*

Can you list...
...the aspects of the lesson that went well?
...the elements of the learning experience that were disappointing?
...any factors that influenced the learning/ experience?
...benefits of the plenary/ main teach out/ introduction?

What happened...
...during the main body of the lesson?
...when learners encountered difficulties?
...during times of transition?

How did...


Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

# Aseiniad ECAD6007-C

- "Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos beirniadol a arsylwyd".
- **Cyfanswm: 4,000 o eiriau ar gyfer aseiniad ysgrifenedig cyfwerth â 1,000 o eiriau ar gyfer arsylwadau gwersi ac adfyfyrio.**

# 1. CYFLWYNIAD

**(tua 250 o eiriau)**

- Yn y rhagarweiniad, dylech ddangos eich bod yn deall teitl yr aseiniad a nodi'r hyn yr hoffech chi ei drafod. Amlinellwch yr achosion beirniadol yng nghyd-destun arfer adfyfyriol ym maes addysgu.

# 2. ARSYLWI




- <u>Cyd-destun yr Ysgol a'r Dosbarth</u>
- **(tua 250 o eiriau)**
- Rhowch wybodaeth gyd-destunol bwysig megis y math o ysgol a'r grŵp/grwpiau oedran dan sylw. Sylwer: dylech sicrhau nad yw enw eich ysgol PAP wedi ei gynnwys yn yr aseiniad ysgrifenedig. Cyfeiriwch at ganllawiau BERA (2018) ar anhysbysrwydd yn benodol yn hyn o beth.

# 3.METHODOLEG




- **(tua 500 o eiriau)**
- Yn yr adran hon, bydd angen i chi ddangos eich bod yn deall gwahanol fodelau arsylwi. Rhowch resymwaith dros y dull a ddefnyddiwyd gennych. Bydd angen hefyd i chi ddangos gwybodaeth am achos beirniadol / methodoleg astudiaeth achos, gan ddangos y cryfderau ond hefyd y cryfderau ond hefyd gwendidau'r dull hwn. Mae'n bwysig eich bod yn dangos tystiolaeth o ddarllen yma.

# 4. PEDWAR PWRPAS




- <u>Achos beirniadol wedi ei gysylltu â Phedwar Pwrpas Donaldson</u>
- **(tua 500 o eiriau)**
- Yn yr adran hon, bydd angen i chi ddisgrifio'r achos beirniadol ond gwnewch yn siŵr y byddwch yn ei gysylltu ag o leiaf un o'r Pedwar Pwrpas. Bydd hyn yn galluogi elfen feirniadol yn hytrach nag un sy'n ddisgrifiadol yn unig.

# 5. ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

- **(tua 1,500 o eiriau)**
- Trwy ganolbwyntio ar achos byddwch wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer ymchwil posibl. Dewiswch 2-3 o'r meysydd hyn. Pwrpas adolygu llenyddiaeth yw darparu cyd-destun i'r aseiniad. Mae adolygiad llenyddiaeth da yn nodi ac yn cyfuno'r pwyntiau allweddol.

# 6.ADFYFYRIO / GWERTHUSO A'R CAMAU NESAF

- **(tua 700 o eiriau)**
- Adfyfyriwch a gwerthuso ar eich ffocws ynghylch yr achos beirniadol a nodi'r camau nesaf. Wrth gyflwyno casgliadau, byddwch yn betrus eich iaith. Golyga hynny awgrymu ond heb feirniadu gan fod hyn yn gwrthdaro ag arfer moesegol. Trafodwch rôl adfyfyrio'n feirniadol a defnyddio modelau adfyfyrio i strwythuro'ch myfyrdodau. Bydd angen i chi ddangos sut y bydd y dull hwn yn llywio eich datblygiad proffesiynol a phersonol eich hun.

# 7. CASGLIADAU

- **(tua 300 o eiriau)**
- Yn yr adran hon, rhowch asesiad a chrynodeb o'r dull yr ydych wedi ei ddefnyddio. Mae'n bwysig i chi gysylltu eich dull â rôl yr ymarferydd adfyfyriol yng Nghymru a'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

# 8. ATODIADAU

- **(cyfwerth â 1,000 o eiriau)**
- Cynhwyswch eich ffurflenni arsylwi gwersi gyda nodiadau yn eich pedair ffurflen Adfyfyrio ar Achos Beirniadol. Fe'i hystyrir yn arfer da i groesgyfeirio er mwyn i chi gyfeirio at yr atodiadau sydd wedi eu rhifo yng nghorff yr aseiniad.

My observation is based upon the behaviours of a 7-year-old boy, during the introduction and carousel activities of a morning lesson. I shall refer to the child in this assignment as ‘Child X’ in order to keep confidentiality and I informed all the pupils that I would be observing them during this lesson. I decided not to inform Child

# Enghraifft o Achos Beirniadol

x that I would be focusing on him specifically, as this had the potential impact of influencing his behaviours and I aimed to seek a true representation of his behaviour. I decided to complete a written record during the observation, writing down notes on the goings on in the classroom at the time of the event gave me a more detailed account, however I do recognise that one of the issues with writing notes whilst observing is that I might have missed some behaviours due to looking away from child x on times.



# THEMÂU YN Y MODWL HWN

Theorïau Dysgu

Llesiant, hawliau a lleisiau

Llythrennedd corfforol

ADY

Llythrennedd emosiynol ac iechyd meddwl

Ymddygiad

Y tîm o gwmpas y dysgwr

Arsylwi'r dysgwr

Deialog proffesiynol



# SESIWN GLO MEWN PARAU

- Beth yw nodweddion Astudiaeth Achos?
- Beth yw nodweddion Achos Beirniadol?
- Esboniwch sut y gallwch nodi Achos Beirniadol.
- Esboniwch elfennau ymarferol yr arsylwi a'r aseiniad.

# CYFEIRIADAU


Arthur, J. et al.(2012) Research Methods and Methodologies in Education London: SAGE.

Cohen, L., Manion, L., & Morrison, K. (2018). *Research Methods in Education*. London: Routledge.

Fletcher-Wood, H. (2016) Ticked off. Carmarthen: Crown House Publishing Ltd.

Kumar, R. (2014) Research Methodology. London: SAGE.

Tripp, D. (2012) *Critical incidents in teaching : developing professional judgement.* London : Routledge.

https://impact.chartered.college/article/what-is-reflective-practice/

https://hwb.gov.wales/professional-development


